OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 866

# Gorchymyn Brwselosis (Cymru) 2006

**Samplo llaeth i'w brofi am dystiolaeth o fodolaeth brwselosis**

**7.**—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n prynu llaeth oddi wrth berchennog buches odro yng Nghymru neu'r person a gofal amdani i'w werthu eto fel llaeth neu gynhyrchion llaeth—

(a) ddewis labordy cymeradwy i brofi'r llaeth am frwselosis;

(b) hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol am y labordy a ddewiswyd;

(c) unwaith bob mis ac ar draul y person hwnnw ei hun, gyflwyno sampl o laeth (sy'n cynnwys llaeth o bob buwch odro yn y fuches honno y mae ei llaeth ar gael i'w werthu) i'r labordy hwnnw i'w phrofi am dystiolaeth o fodolaeth brwselosis;

(ch) ychwanegu'r cadwolyn y mae'r person â gofal am y labordy yn gofyn amdano at y sampl; a

(d) sicrhau bod label ar y sampl ac sy'n cynnwys—

(i) cod bariau neu ddyfais arall sy'n galluogi'r labordy i adnabod y fuches neu'r rhan o fuches y cymerwyd y sampl ohoni; a

(ii) dyddiad cymryd y sampl.

(2) Mae person yn esempt o'r ddyletswydd a osodir gan baragraff (1) uchod, os nad yw'r person hwnnw ond yn prynu llaeth amrwd wedi'i ragbacio i'w werthu eto—

(a) yn y cynhwysydd y cafodd y person hwnnw ef ynddo a'r caewyr heb eu torri;

(b) o gerbyd a ddefnyddir yn gyfreithlon fel siop; ac

(c) yn uniongyrchol i'r defnyddiwr olaf.

(3) Ym mharagraff (2) uchod, ystyr "defnyddiwr olaf" yw unrhyw berson sy'n prynu llaeth heblaw at ddibenion—

(a) ei werthu eto;

(b) sefydliad arlwyo; neu

(c) busnes gweithgynhyrchu.

(4) Ni chaiff unrhyw berson mewn unrhyw ddull na modd drin, ac eithrio drwy ychwanegu cadwolyn yn unol â pharagraff (1)(ch) uchod, unrhyw sampl neu ei label, neu ymyrryd â hwy a bernir bod person wedi trin neu ymyrryd â sampl os yw'r person hwnnw yn gwneud unrhyw beth mewn perthynas â hi sy'n debygol o effeithio ar ganlyniad y profi sy'n ofynnol o dan yr erthygl hon.

(5) Rhaid i'r person â gofal am labordy cymeradwy gydymffurfio â'r darpariaethau canlynol fel amod y gymeradwyaeth—

(a) rhaid i'r person hwnnw gadw cofnod o'r buchesi yr anfonir llaeth i'w brofi oddi wrthynt o dan baragraff (1) uchod;

(b) rhaid i'r person hwnnw hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith os na cheir sampl yn ystod unrhyw fis oddi wrth un o'r buchesi a restrir yn y cofnodion a gedwir o dan is-baragraff (a) uchod;

(c) rhaid i'r person hwnnw hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn 24 awr pan fo sampl wedi'i phrofi am dystiolaeth o fodolaeth brwselosis a'r canlyniad yn un cadarnhaol;

(ch) rhaid i'r person hwnnw hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn mis pan fo sampl wedi'i phrofi am dystiolaeth o fodoloaeth brwselosis a'r canlyniad yn un negyddol; a

(d) rhaid i'r person hwnnw gadw cofnod o ganlyniadau'r holl brofion a wneir am dystiolaeth o fodolaeth brwselosis am gyfnod o flwyddyn o ddyddiad y prawf.

(6) Os yw unrhyw berson yn methu â chymryd unrhyw gam sy'n ofynnol o dan ddarpariaethau paragraff (1) uchod, caiff arolygydd milfeddygol, heb ragfarnu unrhyw achos sy'n codi o'r methiant hwnnw, gymryd y cam hwnnw, neu beri ei gymryd, a chaiff y Cynulliad Cenedlaethol adennill unrhyw dreuliau y mae wedi mynd iddynt yn rhesymol wrth wneud hynny oddi wrth y person sydd wedi methu â chymryd y cam gofynnol.